Yswiriant cynnwys y cartref

Beth yw yswiriant cynnwys y cartref

Mae yswiriant cynnwys y cartref yn gwarchod y rhan fwyaf o'ch eiddo personol ac eiddo'r cartref rhag colled neu ddifrod. Mae hyn yn cynnwys celfi, offer domestig, offer trydanol, dodrefnu, bwyd a diod, rhai pethau gwerthfawr ac arian parod i fyny at derfyn arbennig.

Mae yswiriant cynnwys y cartref yn gwarchod eiddo sy'n perthyn i chi ac aelodau agos eich teulu sy'n byw gyda chi. Fel arfer mae hyn yn golygu fod eiddo eich gŵr, gwraig, partner sifil, plant, rhieni ac aelodau agos eraill y teulu yn cael eu gwarchod. Mae rhai cwmnïau yswiriant yn cynnwys yn awtomatig bobol sy'n cyd-fyw yn ôl eu diffiniad hwy o "aelodau'r teulu', ond fe fydd angen i chi wirio hyn. Nid yw ffrind sy'n byw gyda chi neu sy'n aros gyda chi yn cael ei warchod fel arfer, oni bai fod ei enw wedi'i gynnwys yn y polisi. Nid oes gofyniad cyfreithiol arnoch i brynu yswiriant cynnwys y cartref, ond mae'n fuddiol i chi wneud hynny.

Mae eich yswiriant cynnwys y cartref fel arfer yn gwarchod difrod i'ch eiddo a achosir gan dân, llifogydd, a stormydd, yn ogystal â lladrad. Nid yw eich polisi yswiriant fel arfer yn gwarchod **difrod damweiniol** neu golli eitemau'r cartref. Yn aml fe allwch ymestyn eich polisi i warchod difrod damweiniol i holl eiddo eich cartref. Bydd yn rhaid i chi dalu mwy am hyn.

Mae'r mwyafrif o bolisïau yswiriant cynnwys y cartref yn rhoi gwarchodaeth **'newydd am hen'**. Mae hyn yn golygu y cewch chi gost lawn o amnewid hen eitem gydag un newydd os ydyw wedi'i ddifrodi neu wedi'i ddwyn. Sut bynnag, nid yw rhai eitemau, er enghraifft dillad a dillad gwely, yn cael eu gwarchod ar sail newydd am hen.

Fel arfer, mae yswiriant cynnwys y cartref hefyd yn darparu gwarchodaeth am **dâl cyfandaliad arian** os ydych chi neu eich priod yn marw o ganlyniad i dân, lladrad, neu ddamwain yn y cartref. Gall hefyd warchod eich cyfrifoldeb cyfreithiol os caiff rywun anaf neu os fyddan nhw farw wrth ymweld â'ch eiddo.

Nid yw polisïau yswiriant cynnwys y cartref fel arfer yn gwarchod eiddo personol a gymerir allan o'r cartref, er enghraifft, camerâu, gemwaith neu offer chwaraeon. Sut bynnag, efallai y gallwch gael gwarchodaeth i eitemau fel hyn trwy dalu mwy. Gelwir hyn yn **warchodaeth pob risg.** Fel arfer mae yna derfyn uchaf ar werth unrhyw eitem unigol**.**

Efallai y bydd yn rhaid i chi gael gwarchodaeth ychwanegol os ydych chi am gynnwys eitem werthfawr iawn yn eich polisi yswiriant cynnwys y cartref. Efallai y bydd yn rhaid i chi hefyd gytuno i rai amodau arbennig, er enghraifft, eich bod yn gosod larwm lladron. Fe ddylech chi ddweud wrth eich yswiriwr am unrhyw beth gwerthfawr iawn yr ydych am ei yswirio.
Os ydych chi'n **rhentu unrhyw eitem o'ch eiddo**, er enghraifft set deledu neu recordydd fideo, mae'n fuddiol i brynu yswiriant i warchod yr eitemau hyn. Y rheswm am hyn yw eich bod yn gyfrifol yn gyfreithiol am unrhyw golled neu ddifrod sy'n digwydd iddynt. Fe allwch naill ai brynu yswiriant gyda chwmni rhentu, neu wirio os

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

ydyw'ch polisi cynnwys y cartref chi yn eu gwarchod.

Os ydych chi'n **rhentu'ch cartref** ac mae ynddo rhywfaint o gynnwys sy'n perthyn i'ch landlord, er enghraifft celfi neu set deledu, fe allwch fod yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod i'r cynnwys hwn a bydd angen i chi drefnu gwarchodaeth yswiriant. Gwiriwch eich cytundeb tenantiaeth i weld os mai hyn sydd yn wir. Os ydyw'r landlord wedi yswirio'r eitemau, gwiriwch i weld bod maint yr yswiriant yn ddigonol**. Mae o hyd yn fuddiol i gael gwarchodaeth am eich eiddo personol**.

Dewis yswiriant cynnwys y cartref

Cyn i chi brynu polisi cynnwys y cartref, penderfynwch faint o yswiriant sydd ei angen arnoch. Bydd hyn yn golygu gweithio allan y gost o adnewyddu eich holl eiddo. Gofynnwch am ddyfynbrisiau oddi wrth sawl yswiriwr er mwyn eich helpu i gael y fargen orau ar gyfer eich amgylchiadau chi. Fe fydd angen i chi gymharu:

- beth mae pob polisi yn ei warchod, ac unrhyw **eithriadau** (y peryglon sy'n cael eu heithrio'n benodol, er enghraifft, traul a gwisgo arferol)

- pris y polisi. Gelwir hwn yn 'bremiwm', a bydd yn amrywio yn ôl eich oedran, ble rydych yn byw, faint o warchodaeth sydd ei angen arnoch a gwerth eich eiddo. Po fwyaf fydd gwerth eich eiddo, y mwyaf fyddwch chi'n ei dalu am eich polisi. Mae'n fuddiol i gynyddu eich yswiriant i gadw i fyny gyda gwerth eich nwyddau. Mae rhai polisiau yn indecs gyswllt yn unol â chwyddiant.

- cyfanswm unrhyw **dâl cychwynnol**. Hwn yw swm cyntaf unrhyw hawliad, er enghraifft y £50 cyntaf, y bydd yn rhaid i chi ei dalu eich hun. Mae rhai polisïau yn caniatáu i chi dalu tâl cychwynnol uwch er mwyn cael premiwm rhatach

- unrhyw **ostyngiadau** a gynigir

- y **bonws dim hawliad** sy'n cynyddu am bob blwyddyn na fyddwch yn hawlio ar eich polisi, i fyny at uchafswm. Bydd y rhan fwyaf o yswirwyr yn caniatáu i chi drosglwyddo'r gostyngiad, os byddwch chi'n newid eich yswiriwr. Bydd angen i chi gymharu hefyd faint o leihad fyddai yn eich bonws dim hawliad os fyddech chi'n gwneud hawliad

- unrhyw **amodau ychwanegol**, megis cyfyngiadau ar eich gwarchodaeth os ydych chi'n gadael eich cartref yn wag am gyfnodau hir.

Pethau i'w cofio

- pan fyddwch chi'n prynu yswiriant, rhaid i chi roi i'r yswiriwr neu'r person sy'n gwerthu'r yswiriant i chi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl am unrhyw beth allai effeithio'u penderfyniad i'ch yswirio a faint o dâl i'w godi
- eich cyfrifoldeb chi ydyw hysbysu'r yswiriwr o unrhyw newidiadau yn eich amgylchiadau, er enghraifft, os ydych chi'n cyflawni unrhyw welliannau i'ch cartref. Fe ddylech chi wneud hyn cyn gynted ag sy'n bosibl, ac nid aros hyd

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

nes y bydd hi'n amser i adnewyddu'ch polisi yswiriant.

Gwneud cais

Os ydych chi am wneud hawliad ar eich yswiriant cynnwys y cartref:

- gwiriwch fod eich polisi yn **gyfredol**, a'ch bod wedi'ch gwarchod ar gyfer y sefyllfa
- **ceisiwch leihau unrhyw golled neu ddifrod pellach,** trwy drwsio dros dro ffenestr sy wedi torri, er enghraifft
- os cyflawnwyd trosedd neu os ydych chi wedi colli eiddo, rhowch wybod i'r **heddlu.** Cadwch nodyn o gyfeirnod y drosedd a roddir i chi, er mwyn i chi ei drosglwyddo i'r yswiriwr, os gofynnir amdano
- cysylltwch â'ch yswiriwr cyn gynted ag sy'n bosibl a gofyn am **ffurflen hawlio.** Cwblhewch y ffurflen hawlio'n ofalus a chadwch **gopi**
- os ydyw'ch hawliad yn un sylweddol, efallai y byddwch am gyflogi **aseswyr colledion** i'ch helpu gyda'ch hawliad. Gwnewch yn siŵr eu bod yn aelodau o Sefydliad Aseswyr Colledion Cyhoeddus. Cysylltwch â hwy ar: 0844 879 3244. Mynnwch gael manylion am unrhyw ffioedd a'r gwasanaethau a gynigir, yn ysgrifenedig, cyn i unrhyw waith gael ei gyflawni
- cadwch **dderbyniadau** am unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i golled neu ddifrod. Efallai y gallwch hawlio'r rhain yn ôl.

Pryd fyddwch chi ddim yn cael eich gwarchod gan eich yswiriant cynnwys y cartref

Efallai na fyddwch chi'n cael eich gwarchod gan eich yswiriant cynnwys y cartref:

- am **draul a gwisgo** arferol
- os na fyddwch chi'n cadw at **amodau** eich polisi, er enghraifft os ydych chi wedi rhentu'ch cartref (oni bai eich bod yn gallu dangos mai mynediad gorfodol ydyw) neu os ydych chi wedi gadael eich cartref yn wag am gyfnod hir o amser.
- am unrhyw **eithriadau** yn eich polisi. Gall y rhain gynnwys eitemau penodol megis gemwaith, neu eitemau gwerthfawr eraill. Gall eich polisi hefyd eithrio gwarchodaeth **cynnwys rhewgell** neu **ffonau symudol**. Gwiriwch eich polisi er mwyn gweld beth a warchodir.
- os ydych chi wedi'ch **tanyswirio.** Mae hyn yn golygu nad yw cynnwys eich cartref wedi ei yswirio am gost lawn eu hadnewyddu. Gall eich yswiriwr ddal i gytuno i dalu cyfran o'ch hawliad**.**
- os oes yna **gyfyngiad** ar y swm y gellir ei dalu am unrhyw eitem unigol
- os oes rhaid i chi dalu **tâl cychwynnol**

Efallai y gall eich yswiriwr, yn unol â thelerau eich polisi, ddarparu eitem arall neu atgyweirio'r eitem, yn hytrach na rhoi arian i chi i'w adnewyddu. Os ydyn nhw'n gwneud hyn ac mae'r nwyddau'n ddiffygiol, eich yswiriwr sy'n gyfrifol am ddelio â'r broblem.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gall problemau godi lle mae dim ond un eitem mewn set yn ddiffygiol, er enghraifft cadair mewn swît o gelfi. Fe all fod yn amhosibl naill ai i atgyweirio'r eitem neu ddod o hyd i un arall yn ei lle sy'n cyd-fynd â'r set. O dan yr amgylchiadau hyn, dylai eich yswiriwr dalu am gost y nwyddau diffygiol ac i fyny hyd at hanner cost amnewid y nwyddau sydd heb eu difrodi.

Sut i wneud cwyn

Os oes gennych broblem ynglŷn â hawliad yswiriant, gwiriwch eich polisi'n ofalus yn y lle cyntaf er mwyn gwneud yn siŵr nad oes gan eich yswiriwr yr hawl i atal rhan o'r taliad neu'r taliad cyfan.

Os ydych chi am wneud cwyn, fe ddylech ysgrifennu atynt, gan roi manylion am eich cwyn, a sut yr hoffech iddo gael ei ddatrys. Os nad ydych chi'n fodlon â'r ymateb, gwnewch gwyn ffurfiol, gan ddefnyddio trefn gwyno swyddogol eich yswiriwr.

Os nad ydych chi'n fodlon â chanlyniad y drefn gwyno ffurfiol, ystyriwch fynd â'r gwyn ymhellach. Rhaid i bob yswiriwr fod yn atebol i reolau'r corff gwarchod cyllid, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA). Mae hyn yn golygu os oes gennych gwyn am yswiriwr y gallwch fynd ag ef at Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Mae hwn yn wasanaeth am ddim sydd ar gael i bob daliwr polisi sydd eisoes wedi dilyn trefn gwyno'r yswiriwr. Bydd yr Ombwdsmon Ariannol yn ceisio datrys y gwyn trwy gyflafareddu. Os na ellir datrys yr anghydfod yn y ffordd hon, bydd yr Ombwdsmon Ariannol yn cychwyn ymchwiliad ffurfiol. Mae'r yswiriwr yn rhwym i'r penderfyniad terfynol a roddir ar ddiwedd yr ymchwiliad hwn, ond os nad ydych yn cytuno ag ef, rydych yn rhydd i fynd â'ch yswiriwr i'r llys. Am fwy o wybodaeth am yr Ombwdsmon Ariannol, fe allwch ymweld â'u gwefan ar www.financial-ombudsman.org.uk, neu eu ffonio ar 0845 080 1800.

Os yw'ch yswiriwr yn **aelod o Lloyds**, cysylltwch ag Adran Gwynion Lloyds ar: 020 7327 5693. Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad y gwyn hwn, cwynwch wrth yr Ombwdsmon Ariannol.

Os ydych chi wedi rhoi cynnig ar bob opsiwn i ddatrys eich cwyn trwy'r drefn gwyno, ond heb lwyddiant, neu os yw'ch yswiriwr wedi'i leoli y tu allan i'r DU, efallai y byddwch am ystyried cymryd camau cyfreithiol. Sut bynnag, fe ddylech chi ystyried mynd i'r llys pan fetho popeth arall. Y rheswm am hyn yw y gallai llys ddyfarnu swm o iawndal sydd yn llai os nad ydych chi wedi rhoi cynnig ar ddatrys y broblem mewn ffyrdd eraill cyn cymryd camau cyfreithiol.

Cyn cymryd camau cyfreithiol, mae angen i chi ystyried os oes gennych ddigon o dystiolaeth. Os ydych yn mynd â'ch yswiriwr i'r llys bydd yn rhaid i chi brofi fod eich cais wedi'i warchod gan eich polisi yswiriant ac efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth arbenigol.

Gall eich swyddfa Cyngor ar Bopeth leol roi cyngor i chi ynglŷn â phroblemau yswiriant, a sut i gymryd camau cyfreithiol. Er mwyn chwilio am fanylion eich swyddfa Cyngor ar Bopeth agosaf, yn cynnwys y rheiny all eich cynghori trwy e-bost, ewch i wefan www.citizensadvice.org.uk.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Dechrau achos llys
- Dull amgen o ddatrys anghydfod
- Adeiladwyr
- Gwasanaethau
- Yswiriant Adeiladau

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Cyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 29 Gorffennaf 2010, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr